



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgyngoriad a ddiweddarwyd ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy

Medi 2021

Cynnwys

Cynnwys	2
1. Cefndir	3
1.1 Ymgynghoriad ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft	3
1.2 Cynllun Rheoli Basn Afon – Hyrwyddo ac Ymgysylltu.....	4
2. Crynodeb o'r Ymatebion	5
2.1 Cwestiynau Ymgynghori.....	6
2.2 Sylwadau cyffredinol	21
3. Y Camau Nesaf	25
Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr	27

1. Cefndir

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod cymwys ar gyfer gweithredu Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r rhain yn amlinellu'r ffyrdd rydym yn diogelu a gwella afonydd, llynnoedd, dŵr daear, a dyfroedd aberol ac arfordirol. Mae'r rheoliadau yn seiliedig ar gyfnod chwe blynedd o gynllunio, gweithredu ac adolygu a elwir yn Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Mae gennym gyfrifoldeb dros lunio'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy yng Nghymru – gan weithio mewn partneriaeth ag amrediad eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Bydd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn amlinellu'r materion strategol sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn yr Ardaloedd Basn Afon a'r camau arfaethedig i'w ddiogelu a'i wella rhwng 2021 a 2027. Mae maes cynllunio basnau afonydd yn datblygu'n barhaus wrth i'n hamgylchedd newid, ar y cyd â'n gwybodaeth a dulliau cyfunol. Mae'r cynlluniau diweddedig yn gyfle i adolygu'r statws presennol a'r hyn y gellir ei gyflawni yn y dyfodol.

1.1 Ymgynghoriad ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft

Cyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf yn 2009. Roeddent yn amlinellu beth fyddai'n cael ei wneud i ddiogelu a gwella afonydd, llynnoedd, aberoedd, a dyfroedd arfordirol a daearol dros gyfnod o chwe blynedd hyd at 2015 (y cylch cyntaf). Wedi hynny, rydym wedi cyhoeddi'r ail Gynlluniau Rheoli Basn Afon yn 2015 (yr ail gylch) ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i roi sylwadau ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft ar gyfer y trydydd cylch.

Mae CNC wedi gweithio yn agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a bydd yn parhau i wneud hynny drwy gydol y cam gweithredu. Ar wahân i'r ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n arwain ar gynhyrchu Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren, a dylai fod ymgynghoriad ar y cynllun drafft hwn hwyrach ymlaen yn 2021. Mae Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru yn gyfan gwbl o fewn cyfrifoldeb CNC i'w lunio.

Mae'r cynlluniau drafft yn disgrifio'r prif faterion ar gyfer yr Ardaloedd Basn Afon ac yn amlinellu camau allweddol arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Mae atodiad technegol ategol yn rhoi mwy o fanylder ar gyflwr presennol y dyfroedd, y camau gweithredu arfaethedig, a'r mecanweithiau y gellir eu defnyddio i yrru'r camau hyn.

Gwnaethom weithio gyda Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Mae'r fforwm cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o lawer o'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw, oll gyda rolau allweddol yn rhoi'r cynllun ar waith.

Mae'r crynodeb hwn yn darparu trosolwg o'r ymatebion mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad ac unrhyw sylwadau/materion cyffredinol a ddarperir gan ymatebwyr. Mae ymatebion o'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon terfynol ymhellach. Cynhaliodd CNC broses sgrinio ar gyfer Asesiad Amgylcheddol

Strategol yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cynlluniau drafft a bydd yn adolygu unrhyw newidiadau sylweddol yn uchelgais a chwmpas y cynlluniau terfynol i sicrhau bod ei benderfyniad ynglŷn â'r broses sgrinio hon yn aros yn briodol. Yn ychwanegol, mae CNC yn croesawu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a bydd yn eu hystyried wrth lunio'r ddogfen derfynol. Roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft yn ystyried y rhaglen o fesurau drafft a oedd yn ategol i'r cynlluniau drafft.

1.2 Cynllun Rheoli Basn Afon – Hyrwyddo ac Ymgysylltu

Gwnaeth yr ymgynghoriad hwn amlinellu nifer o gwestiynau penodol. Mae ymatebion yn hanfodol i lywio a datblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon statudol, gan gynnwys y camau a gynllunir ar gyfer gwelliannau rhwng 2021 a 2027. Ymgwymerwyd â'r ymgysylltiad canlynol:

Gwefan CNC

Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddaredig ar gyfer Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy ar hwb ymgynghori ein gwefan.

Rhanddeiliaid Allanol

Ar ddechrau'r ymgynghoriad, anfonwyd e-bost at fwy na 700 o randdeiliaid o bob sector yn ogystal ag unigolion. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy rwydweithiau presennol ac ymgysylltu parhaus, gan gynnwys drwy waith y Datganiad Ardal.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad mewn cyfarfodydd partneriaeth, gan gynnwys Partneriaeth Canol Dalgylch Afon Dyfrdwy, y Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol, Grŵp Partneriaid Plaladdwyr, Genweirwyr Alun, y Rhwydwaith Bioamrywiaeth (Gogledd-ddwyrain Cymru), Panel Adnoddau Dŵr Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM), a Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Lleol Clwyd, Gwynedd a Dinbych. Cyhoeddodd Partneriaeth Moroedd Glân Cymru erthygl ar yr ymgynghoriad yn ei chylchlythyr gaeaf. Ymddangosodd hefyd yng nghylchlythyr misol CNC, Cyfoeth. Rhoddwyd datganiad i'r wasg hefyd pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad.

Cafodd CNC gefnogaeth gan Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, Fforwm Rheoli Tir Cymru, y Fforwm Mynediad Cenedlaethol a Fforwm Pysgodfeydd Cymru, a wnaeth hyrwyddo'r ymgynghoriad i'w haelodau.

Codwyd ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad yn fewnol o fewn CNC i annog staff i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ymysg eu cysylltiadau allanol – er enghraifft, Grŵp Ymarferwyr y Datganiad Ardal a Grŵp Llywio Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Ymddangosodd yr ymgynghoriad hefyd mewn sawl cyfathrebiad mewnol megis mewnwyd CNC, Yammer, a'r Canllaw Misol ar gyfer Rheolwyr.

Ysgrifennom at Dîm Asesu Strategol CNC, Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cadw i ymgynghori ar ein penderfyniadau sgrinio o dan Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (a elwir yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol hefyd) a oedd ynghlwm â'r ymgynghoriad ar fersiynau drafft y

Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy. Nid anghytunodd unrhyw un o'r ymgynghorion statudol â'n dull.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy'r cyfryngau cymdeithasol, amcangyfrifir bod 1,271 o bobl wedi darllen y trydariadau ar gyfrif Twitter @WaterNRW. Roedd yna 21 o aildrydariadau gan ddilynwyr cyfrif Twitter @WaterNRW.

Hysbysebion Statudol

Cafodd hysbysiadau am yr ymgynghoriad eu cyhoeddi yn y Western Mail, Daily Post a'r London Gazette yn ôl gofynion Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017.

Rhodddwyd neges bellach i'r holl randdeiliaid 30 diwrnod cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Defnyddiwyd y sianeli cyfathrebu mewnol a nodwyd uchod hefyd i roi nodiadau atgoffa o'r dyddiad cau.

2. Crynodeb o'r Ymatebion

Derbyniodd CNC 29 ymateb i'r ymgynghoriadau: roedd yna 15 ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac 14 ar gyfer Gorllewin Cymru. Gellir dod o hyd i restr o ymatebwyr yn Atodiad 1.

Cofnodwyd yr ymatebwyr o dan y sectorau roeddent yn eu cynrychioli. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig
- Genweirio a physgodfeydd
- Awdurdodau lleol
- Cadwraeth a hamdden
- Y diwydiant dŵr
- Grwpiau cymunedol
- Unigolion
- Arall

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan CNC.

2.1 Cwestiynau Ymgynghori

C. Dull strategol ar gyfer rheoli cemegion: Dywedwch wrthym a ydych yn cytuno â'r dull a'r mesurau arfaethedig i wella statws cemegol, a pham

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â dull CNC ar gyfer rheoli cemegion. Codwyd pryderon nad yw'n ymddangos bod llawer o reolaeth dros y defnydd o bryfladdwyr, ac na ddylid gweld gostyngiad ar ei ben ei hun fel llwyddiant, gan y gall y rhain gael effaith sylweddol ar infertebratau dyfrol. Mater arall o bryder yw'r defnydd o chwynladdwyr a diffyg opsiwn amgen diogel.

Mynegodd sawl ymatebwr bryder dros y diffyg monitro a gorfodi ac ystyriodd un fod hyn yn dangos diffyg bwriad i fynd i'r afael â halogiad cemegol yn ein hafonydd. Mae'r dirywiad yn ansawdd y dŵr mewn afonydd o ganlyniad i ddigwyddiadau llygredd yn peri pryder.

Roedd un ymatebwr yn meddwl y dylai ein nod yn y pen draw fod yn amgylchedd heb gemegion yn hytrach na gorfod mesur y lefelau ac adrodd ar y niwed a achoswyd. Cytunwyd gan nifer o ymatebwyr na ddylai profi meinwe pysgod a physgod cragen gael effaith negyddol ar boblogaethau a nododd un ymatebwr y byddai'n well datblygu ffordd o brofi ar sbesimenau byw fel y gellid eu rhyddhau unwaith eto. Croesawyd y ffaith y bydd CNC yn gweithio i ymchwilio i ffurfiau newydd ac effeithiol o fonitro nad ydynt yn cael effaith ar rywogaethau neu'n eu niweidio fel rhan o'r rhaglen fonitro.

Cydnabuwyd bod angen rheoli rhai cemegion ar raddfa genedlaethol ond y gellid rheoli rhai ar lefel dalgylch / lefel leol. Codwyd pryder gan un ymatebwr fod plaladdwyr megis fipronil ac imidacloprid (a ddefnyddir mewn coleri chwain cŵn) yn cael eu canfod mewn cyrsiau dŵr a bod hyn yn gysylltiedig â chŵn yn nofio mewn afonydd a bod y gwaharddiad ar ddefnydd mewn amaethyddiaeth heb gael ei ymestyn i bob defnydd. Roedd teimlad fod angen ystyried rhannau eraill o'r amgylchedd fel rhan o geisio gwella ansawdd dŵr. Er enghraifft, gall cemegion amaethyddol effeithio ar ansawdd aer, a gall hynny gronni yn ei dro a chyfrannu at halogiad cyrff dŵr.

Gwnaeth un ymatebwr sylw y bu llawer o fuddsoddiad mewn drin dŵr yfed a'i fod yn cydweithio â defnyddwyr plaladdwyr i leihau a lliniaru'r effeithiau yn llygad y ffynnon. Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod cost y buddsoddiad hwn yn cael ei basio i'r talwyr biliau ac nid yw'n adlewyrchu 'egwyddor y llygrwr sy'n talu'. Nodwyd ganddo y byddai monitro parhaus ar gyfer cemegion yn angenrheidiol i asesu effeithiolrwydd deddfwriaeth ac i ddatblygu darlun o gemegion sy'n dod i'r amlwg.

Croesawodd ymatebwr arall y ffaith y bydd sylweddau hollbresennol, parhaus, biogronnus a gwenwynig (uPBTs) yn cael eu hadrodd yn llawn am y tro cyntaf, ond teimlai y dylai'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon nodi canran y cyrff dŵr sy'n cael eu monitro am y sylweddau hyn yn glir. Meddyliwyd hefyd y dylai CNC nodi'n glir sut mae'n bwriadu cyrraedd lefelau sylweddol o waith monitro, gan gynnwys dyddiadau targed. Mae'n credu y dylai fod rheolaethau llawer mwy llym ar ddefnydd chwynladdwyr, yn ogystal â chymorth a chynghor ar gyfer dulliau gwahanol o reoli chwyn. Roedd hefyd yn teimlo bod dewisiadau gwahanol nad ydynt yn defnyddio cemegion yn hanfodol, gan y gallai gwaharddiad ar glyffosad arwain at y defnydd o gynhyrchion mwy niweidiol.

C. Ein cynigion ar gyfer mesurau cenedlaethol: Dywedwch wrthym am fesurau cenedlaethol eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys a pham

Awgrymwyd nifer o fesurau a sylwadau gwahanol ar y mesurau arfaethedig gan ymatebwyr, gan gynnwys y canlynol:

- Gweithredu rheolaeth fwy llym o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mewn rhai achosion, mae gwllâu afonydd wedi cael eu carthu i warchod glannau'r afon, ond mae hyn wedi achosi niwed sylweddol i wely'r afon ac wedi difa bywyd dyfrol yr afon.
- Mesur cenedlaethol i fynd i'r afael â llygredd ffosffadau. Mae gan y newid i safonau ffosffadau gan CNC ym mis Ionawr 2021 oblygiadau dwys ar gyfer y diwydiant dŵr, amaethyddiaeth a chynllunio (datblygiadau) ledled Cymru gyfan.
- Atebion ar sail natur sy'n cael eu cymhwyso ar raddfa dalgylch a all wella afonydd ac ecosystemau dyfrol er budd pobl a natur orau. Mae hyn yn cynnwys adfer cynefinoedd ucheldir cydnerth a gorlifdiroedd naturiol, creu argaeau sy'n gollwng, defnyddio malurion coed mewn nentydd i arafu llif y dŵr, ac ailgyflwyno rhywogaethau fel afancod i adfer elfen allweddol sydd ar goll yn y rheolaeth naturiol o lifogydd. Gall yr arferion hyn helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal â darparu gwasanaethau ecosystemau megis llai o berygl llifogydd, gwell gwydnwch i sychder, mwy o storio carbon, a mwy o gynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth.
- Ymchwil bellach ac ystyried ymestyn y dull 'un cae yn ôl' sy'n cael ei fabwysiadu ar hyd yr arfordir i glustogi cynefinoedd morol, i'w weithredu ar gynefinoedd gwlyptiroedd ac afonol.
- Mapio'r lleoliadau sy'n weddill o gynefinoedd torlannol prin, megis dolau gorlifdir MG4 ac MG8, i werthuso'r potensial ar gyfer eu creu a'u hadfer. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i gwblhau ar gyfer rhai dalgylchoedd afonydd yng Nghymru, gan gynnwys dalgylch afon Wysg, ond mae yna botensial ar draws dalgylchoedd afonydd eraill.
- Dylid datblygu monitro pellach fel mesur cenedlaethol allweddol ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Nid ar gyfer paramedrau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unig, ond hefyd ar gyfer materion fel microblastigau a deunyddiau fferyllol. Bydd monitro'r paramedrau hyn yn awr yn darparu data y gellid ei ddefnyddio i lywio atebion ac ymyriadau wrth symud ymlaen.
- Gosod terfynau cyfreithiol ar y defnydd o gorlifoedd carthion cyfun a dwyn llygrwyr i gyfrif. Nid yw'r diffiniad presennol o 'amgylchiadau eithriadol' yn ddigon clir i orfodi cydymffurfiaeth. Dylai hefyd fod monitro cyson ac eang ei wasgariad o ollyngiadau gorlif carthion cyfun i reoleiddio a gorfodi cydymffurfiaeth cwmnïau dŵr.
- Uwchraddio seilwaith diffygiol – mae'n rhaid i raglen reolaidd o asesu ac uwchraddio seilwaith dŵr fod ar waith, ynghyd â buddsoddiad sylweddol. Dylid blaenoriaethu gwaith gweithredu atebion ar sail natur.
- Asesu tanciau carthion – dylai CNC fabwysiadu rheolau tebyg i Reolau Rhwymol Cyffredinol Tanciau Carthion Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob tanc carthion sy'n gollwng i ddŵr wyneb gael ei ddisodli. Mae'n bwysig fod gennym reoleiddio llym ar y defnydd o danciau carthion i sicrhau bod llygredd o danciau carthion diffygiol yn cael ei leihau.
- Mae NFU Cymru wedi hybu sefydliad Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm o fewn CNC ers peth amser i ddarparu cyngor i'r gymuned ffermio.

- Ni ddylid rhoi ystyriaeth i unrhyw fesurau cenedlaethol ychwanegol nes bod gennym set ddata gadarn a digonol o fewn Cymru ar y mesurau sydd eu hangen ar hyn o bryd. Mae'r gwaith monitro ar gyfer y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr wedi gostwng yn sylweddol ers y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf.

Mae'r sylwadau ar rai o'r mesurau strategol yn cynnwys y canlynol:

- **Strategaeth Ddŵr i Gymru** – yn destun adnewyddiad yn 2021, ond rydym yn deall y bydd yr egwyddorion trosfwaol yn aros yr un peth. Mae'r graddau y mae hon yn briodol mewn tirwedd wleidyddol sy'n newid ymhell o fod yn glir.
- **Rhaglen Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr CNC** – mae CNC wedi gweithio i ddatblygu rhaglen fforddiadwy o fesurau ar gyfer y trydydd cylch, ond bydd angen cyllid ac adnoddau pellach ac mae yna bryder y bydd fforddiadwyedd yn cael ei asesu'n gul drwy lens cost i CNC. Ni all y diwydiant ffermio fforddio i ddwyn y gost o gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Byddai'n briodol gwerthuso effeithiolrwydd Cronfa Weithredu y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, gan gynnwys lefelau uchelgais, canlyniadau a gyflawnwyd, gwerth am arian, a chostau rheolaeth/gweinyddol.
- **Rhaglen adfer afonydd** – nid yw ffermwyr, a fydd yn ganolog i gyflawni gweithgarwch adfer afonydd, wedi bod yn rhan o waith ymgysylltu yn y rhaglen hon ac mae pryder fod CNC yn buddsoddi symiau sylweddol mewn rhaglenni a fydd yn cael eu cyflwyno fel *fait accompli* heb ddatblygu cynigion sy'n realistig, dichonadwy a fforddiadwy mewn cydweithrediad â'r diwydiant ffermio.
- **Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd** – mae'n rhaid i'r cynlluniau ar gyfer yr ail gylch sicrhau bod y gwasanaeth rheoli perygl llifogydd a ddarperir gan ffermio yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n iawn. Dylid rhoi gwerth mwy ar dir amaethyddol mewn arfarniadau perygl llifogydd, gan gydnabod pwysigrwydd sector bwyd a ffermio gwydn. Mae cyflawni'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn debygol o ddibynnu ar sicrhau ymrwymiad gan ffermwyr ac mae angen gwneud mwy i ddatblygu'r cydberthnasau hynny.
- **Adnoddau dŵr** – mae'n rhaid i ffermio yng Nghymru allu cael mynediad at ei gyfran deg o adnoddau dŵr nawr ac yn y dyfodol i alluogi twf cynaliadwy yn y sector. Mae'n rhaid deall gwerth economaidd llawn dŵr Cymru hefyd i sicrhau bod y gwerth hwn yn cael ei ddychwelyd i bobl Cymru, gyda'r bobl hynny sy'n rheoli'r tirweddau sy'n darparu'r gwasanaeth pwysig hwn yn cael eu gwobrwyo'n deg.
- **Rheoli tir yn gynaliadwy – amaethyddiaeth** – yn seiliedig ar gynigion o fewn y Papur Gwyn Amaethyddol (Cymru) diweddar, mae'r graddau y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyflawni ansawdd dŵr gwell yn unol â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn aneglur. Tra oedd y Papur Gwyn yn cynnwys ffocws cryf ar y sylfaen reoliadol, mae'r graddau y bydd offer rheoliadol di-fin yn effeithiol wrth gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ymhell o fod wedi'u profi.
- **Rheoli tir yn gynaliadwy – coedwigaeth** – mae'n dda bod CNC yn ymrwymedig i wella ansawdd amgylcheddol Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn gyson. Bydd hyn yn cael ei groesawu gan lawer o'n haelodau, sy'n arsylwi arferion gwael iawn yn aml, yn enwedig yn ystod ac ar ôl gweithrediadau cwmpo coed, gydag effeithiau ar ffermydd cyfagos a'r amgylchedd ehangach.
- Dylid ailgyflwyno'r gwaith rheolaidd o glirio ffosydd/nentydd/afonydd gan fod hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei wneud yn rheolaidd o'r blaen, ond, o ganlyniad i doriadau cyllid, nid yw'n digwydd bellach, gan arwain at erydu glannau afonydd mewn rhai ardaloedd sy'n cynyddu'n gyflym.

- Mae angen ystyried yr effaith bosibl ar fusnesau amaethyddol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'n gywir bod y gwaith o reoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy yn wynebu heriau. Mae ffermwyr ar y rheng flaen yn wynebu effaith y newid yn yr hinsawdd, a fydd yn golygu y bydd argaeledd a rheolaeth dŵr yn gynyddol bwysig. Mae angen dadansoddiad manylach, fel rhan o'r broses o gynllunio gwaith rheoli mewn basnau afonydd, ar effaith y newid yn yr hinsawdd ar fodloni statws da ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ledled yr Ardaloedd Basn Afon, o ystyried ein bod eisoes yn arsylwi ar ordyfiant algâu o ganlyniad i lifoedd isel a thywydd braf. Mae angen deall effaith tywydd eithafol ar lifoedd dŵr ac ecoleg afonydd a'i hadlewyrchu mewn targedau.
- Mae amrywiaeth eang o brosiectau yn cael eu cyflawni i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu targedu yn seiliedig yn bennaf ar y gwaith monitro a wneir er mwyn pennu'r dosbarthiadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Er mwyn sicrhau bod y prosiectau hyn yn targedu'r problemau cywir ac yn yr ardaloedd cywir, mae angen i'r gwaith monitro hwn fod mor gywir a chadarn â phosibl. Ar hyn o bryd, mae yna ormod o ofyn ar ddim digon o ddata, ac mae hyn yn debygol o greu mesurau sy'n cael eu nodi'n anghywir. Dylai felly fod cynnydd o ran faint o waith monitro sy'n cael ei gyflawni ac o ran y lleoliadau y caiff ei gyflawni i helpu i sicrhau bod mesurau cenedlaethol yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.
- Mae yna lawer o grwpiau yn ceisio cyflawni fwy neu lai yr un nodau o ddŵr glân a digonedd ohono, ond oll â dulliau a chyfrifoldebau ychydig yn wahanol. Mae hyn yn ddryslyd ac yn aneffeithlon ac yn arwain at ddulliau sy'n gwrthdaro a chynlluniau is-optimaid. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r canlyniadau y gellir eu cyflawni, mae angen i'r holl sefydliadau â chylch gwaith i reoli nid dŵr yn unig ond tir hefyd ddod ynghyd yn fwy effeithiol o safbwynt meddwl strategol tymor hir a gweithrediadau tymor byrrach mewn dalgylchoedd.
- Mae'n rhaid gweithredu dull cyfannol a chydgyssylltiedig ar gyfer y mesurau er mwyn eu halinio â'r Datganiadau Ardal a'r Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur i gael yr effaith fwyaf.
- Mae angen bod yn realistig wrth sefydlu'r rhaglen o fesurau ynghylch yr hyn sy'n bosibl ar lawr gwlad. Mae'r adolygiad diweddar o ffosffadau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, er enghraifft, yn amlygu methiannau eang (61%) ynglŷn â ffosffadau ledled afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru, nid o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd y dŵr fel y cyfryw, ond o ganlyniad i dargedau uchelgeisiol newydd ar gyfer ffosffadau a sefydlwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

C. Pa fesurau y gallwch eu cyflawni i helpu i wella'r amgylchedd dŵr? Dywedwch wrthym lle y gallent ddigwydd, am bartneriaethau perthnasol, a sut y byddent yn cyflawni gwelliannau

Awgrymwyd nifer o fesurau a sylwadau gwahanol gan ymatebwyr, a chaiff rhai enghreifftiau eu cynnwys isod:

- Lobïo i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith i reoli'r lefel annerbyniol o lygredd amaethyddol sy'n mynd i mewn i'n hafonydd a'n nentydd.
- Mae gan Gymdeithas Genweirio'r Rhyl a Llanelwy dros 150 o aelodau, ac mae gennym aelodau a hoffai wirfoddoli i gymryd rhan yn monitro ansawdd dŵr ein

hafonydd lleol. Gellir gwneud hyn drwy gydweithrediad ag CNC ac ymddiriedolaethau afonydd.

- Gallai CNC gydweithio â chynghorau cymuned a'u hyfforddi ar sut i ofalu am hyd o afon o fewn eu cymuned.
- Gwarchod y Parc – mae Gwarchod y Parc yn gynllun Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n helpu thirfeddianwyr i gyflawni gwaith rheoli tir cadwraeth yn ardal y Parc Cenedlaethol, gan ategu cynlluniau cenedlaethol.
- Pwyth mewn Pryd – mae Pwyth mewn Pryd yn gynllun Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr a gwirfoddolwyr i ddileu rhywogaethau o blanhigion goresgynnol allweddol ar sail dalgylch / basn draenio.
- Roedd Arolygu Amgylchedd y Ddyfrffordd am Fygythiadau Llygredd (SWEPT) yn ymdrech arobryn a arweiniwyd gan wirfoddolwyr i gasglu data amgylcheddol o fewn ardal Dyfrffordd Aberdaugleddau, a arweiniwyd gan Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro ac a gyflawnwyd gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Fforwm Arfordir Sir Benfro a Chanolfan Darwin.
- Mae'r Rhwydwaith Gweithredu Amgylcheddol ar Lefel y Dalgylch (CLEAN), a arweinir gan Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian, wedi mabwysiadu'r dull SWEPT yn nalgylch afon Nyfer. Mae gobaith y bydd ail gam, gan gynnwys ymyriadau ymarferol yn ogystal ag addysg a gwyddoniaeth dinasyddion, yn dilyn.
- Gwnaeth Fforwm Arfordir Sir Benfro a phrosiect Adeiladu Cydnerthedd mewn Dalgylchoedd gan Bartneriaeth Menter Ecosystem PLANED archwilio'r potensial ar gyfer cynllun masnachu maethynnau ar gyfer dalgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau ac afon Cleddau.
- Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â ffermwyr tenant, cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol i greu amgylchedd glanach, iachach a mwy gwydn. Mae prosiect dalgylch uchaf afon Conwy gydag CNC yn enghraifft sylweddol o le rydym yn cydweithio i adfer cynefinoedd naturiol, lleddfu llifogydd, cysylltu pobl â'r dalgylch, a sicrhau y caiff ei reoli'n gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r cam presennol o'r prosiect hwn, 'Tir Afon', a ariennir drwy gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru, yn bwriadu cyflawni rhaglen o arolygon iechyd pridd a chynghor ar gyfer ffermydd o fewn is-ddalgylchoedd sy'n gyfoethog o ran maethynnau yn nalgylch uchaf afon Conwy.
- Mae Rhaglen Afondiroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio ledled 12 dalgylch yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y canlynol: ffermio er lles natur; adfer afonydd, gan gynnwys ailgysylltu â gorlifdiroedd; adfer cynefinoedd a chreu cynefinoedd dŵr croyw ac ar y tir cysylltiedig; ymgysylltu cymunedol a phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion; cynlluniau ailgyflwyno yn dychwelyd rhywogaethau brodorol; rheoli rhywogaethau estron problematig; cadwraeth ar raddfa tirwedd ledled dalgylchoedd cyfan; a mesurau lliniaru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.
- Mae trapiau gwaddodion wedi'u gosod yng Ngardd Bodnant i helpu i arafu llif y dŵr, ac yng Ngerddi Dyffryn hefyd, gan weithio gyda thirfeddianwyr cyfagos i leihau dŵr ffo. Maent hefyd wedi hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy ac wedi creu cronbyllau ac ardaloedd llifogydd sy'n dargyfeirio dŵr i ffwrdd o'r plasdy a'r gerddi ffurfiol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio gyda'i ffermwyr i adfer nodweddion naturiol megis gwlyptiroedd a choetiroedd sydd, yn y lleoedd iawn, yn gallu helpu i hidlo dŵr ffo a glanhau'r dŵr yn naturiol. Annog gwaith i adfer a chynnal a chadw cynefinoedd ar ymylon caeau, megis pyllau a gwrychoedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau, gan ddarparu lloches ar gyfer bywyd gwylt a choridoriau i ailgysylltu'r

dirwedd. Rydym hefyd yn hyrwyddo opsiynau eraill neu leihau'r defnydd o blaladdwyr a gwrteithiau.

- Cynllun Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol Cymru i fwyafu'r dŵr sy'n cael ei ddal yn yr ucheldiroedd ac arafu dŵr llifogydd yn y ffynhonnell. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau mawn yr ymddiriedolaeth yn cael eu nodi a'u hadfer fel sy'n angenrheidiol ac yn hyrwyddo rheolaeth dda o gynefinoedd yr ucheldir, gyda mesurau sy'n cynnwys: dim plannu coed ar gorgorsydd, creu cynefinoedd gorgors newydd, cynyddu gorchudd llystyfiant trwy leihau niferoedd defaid / cefnogi gwartheg yn pori, ac annog aildyfiant naturiol lle bo'n briodol.
- Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynnal ymchwil i farn, dewisiadau ac agweddau defnyddwyr dŵr mewn nifer o feysydd allweddol y gellir ei defnyddio i gefnogi cwmnïau dŵr wrth gyflawni'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae defnyddwyr hysbys yn llawer mwy tebygol o ymgymryd â gweithgareddau arbed dŵr a cheisio'r cymorth a chyingor ymarferol sydd ar gael.
- Mae Partneriaeth Canol Dalgylch Afon Dyfrdwy yn gweithio i wella iechyd cyrff dŵr canol dalgylch afon Dyfrdwy. Mae'r bartneriaeth wedi'i ffurfio o amrywiaeth o sefydliadau sydd ag ystod o gryfderau. Gall y bartneriaeth helpu i gyflawni llawer o'r canlyniadau a nodwyd yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy, ac, yn benodol, helpu i lywio a blaenoriaethu meysydd gwaith, gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd a chyflawni prosiectau ymarferol ar lawr gwlad.
- Mae United Utilities yn gwella ansawdd dŵr yn afon Dyfrdwy. Byddwn yn parhau i gymryd rhan ymarferol yn y fforymau a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â phartneriaethau newydd, a byddwn yn parhau i helpu i wella'r amgylchedd dŵr yn unol ag amcanion ein cwmni i ddiogelu adnoddau dŵr.
- Cyflawnodd Afonydd Cymru waith adfer cynefinoedd yng Nghymru yn 2020/21 gwerth £1.4 miliwn. Rydym yn dymuno cefnogi Llywodraeth Cymru ac CNC yn weithredol mewn amcanion i gyflawni adfer cynefinoedd a gwella pysgodfeydd yng Nghymru. Byddai blaenoriaethu a gweithredu'r mesurau hyn nid yn unig yn bodloni gofynion adfer pysgodfeydd, ond byddai hefyd yn cyflawni buddion ychwanegol i afonydd sydd ar hyn o bryd yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn methu o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pysgod, mesurau lliniaru a hydromorffoleg.
- Mae Afonydd Cymru ac ymddiriedolaethau afonydd Cymru yn ceisio cyflawni atebion ar sail natur ar hyn o bryd i gefnogi rheoli maethynnau yng Nghymru, yn enwedig cydymffurfiaeth ffosfforws mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu. Mae Sefydliad Gwy ac Wysg wedi arloesi'r dull hwn trwy ddatblygu dau gwlyptir ar y ffin yn Lloegr.
- Mae yna gryn dystiolaeth o orlifoedd carthion cyfun nad ydynt yn gweithredu o dan amodau trwydded yng Nghymru. Mae gan Afonydd Cymru a'r ymddiriedolaethau afonydd wybodaeth unigryw ar lawr gwlad o'r dalgylchoedd afonydd, gan weithio'n agos gyda nifer fawr o glybiau genweirio a physgota, ffermwyr a thirfeddianwyr. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith adrodd gyda Dŵr Cymru ar gyfer adrodd ar orlifoedd carthion cyfun ond rydym yn credu y gallai'r mudiad gynnig tystiolaeth, gwybodaeth a galluedd monitro bellach sylweddol i gefnogi'r gwaith o olrhain a gweithredu gorlifoedd carthion cyfun.
- Mae Afonydd Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru a'r ymddiriedolaethau afonydd i ddatblygu Cwmnïau Cydweithredol Monitro Dalgylchoedd i ddarparu hyfforddiant ar gyfer arolygon data gwyddoniaeth dinasyddion, casglu data cyson, a datblygu swyddogaethau adrodd a mapio. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gydag CNC i ddatblygu hyn ymhellach.

- Yn 2021, sefydlodd Afonydd Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Choed Cadw yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Gwerthwyr Pysgod i edrych ar bartneriaethau a chyfluoedd cyflawni rhwng yr Alban a Chymru. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu sawl opsiwn ar gyfer plannu coed yng Nghymru.
- Mae Afonydd Cymru ac ymddiriedolaethau afonydd Cymru yn cyflawni rheolaeth a chyingor ffermydd ledled Cymru. Rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid a rhanddeiliaid ar hyn, gan gynnwys cyflenwyr bwyd, manwerthwyr, ffermwyr a thirfeddianwyr, Cyswllt Ffermio, ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.
- Mae RSPB Cymru wedi ymgysylltu'n weithredol â phrosiectau blaenorol a pharhaus sydd wedi helpu i wella'r amgylchedd dŵr, gan gynnwys gwaith presennol a arweinir gan RSPB Cymru ar Bartneriaeth Tirwedd y Gwastadeddau Byw. Mae'r rhaglen yn ceisio gwarchod ac adfer nodweddion treftadaeth naturiol pwysig, sef ffosydd draenio Gwastadeddau Gwent yn bennaf.
- Mae RSPB Cymru hefyd wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â rheoli dŵr a storio yn Nhŷ Llwyd, sef ein fferm fewnol sy'n rhan o ystad Llyn Efyrynwy. Rydym wedi gwella seilwaith rheoli dŵr, gan gynnwys cynyddu capasiti storio â gorchudd a chynnal y rhaniad rhwng dŵr glân a budr. Rydym hefyd wedi defnyddio'r gwelliannau i eirioli ac arddangos sut y gellir rheoli dŵr o fewn busnes fferm i leihau effeithiau amgylcheddol.
- Mae gan yr RSPB hefyd brofiad helaeth o reoli rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys ymchwilio i atebion ar draws y dalgylch i rywogaethau estron goresgynnol. Byddai'r RSPB yn barod i ymgysylltu ar fesurau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol ar draws ystod o safleoedd a graddfeydd, a byddai'n croesawu'r cyfle i ymgysylltu ar fesurau i fynd i'r afael â materion sy'n cael effaith uniongyrchol ar safleoedd a reolir gan yr RSPB yn enwedig.
- Mae'r RSPB yn rhan o brosiectau ar raddfa tirwedd mewn nifer o safleoedd ledled Cymru, gan gynnwys Gwastadeddau Gwent, Elenydd–Mallaen, Coedydd Derw Meirionnydd a Gweunydd Gogledd Cymru. Mae RSPB Cymru yn mynd yn uniongyrchol ar drywydd prosiectau o fewn yr ardaloedd hyn a fydd yn gwella'r amgylchedd dŵr ac yn cyfrannu at gyflawni statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd dynodedig o fewn y tirweddau hyn.
- Mae gan Bartneriaeth Canol Dalgylch Afon Dyfrdwy gyfoeth o brofiad a rhwydwaith o unigolion a all helpu i ysgogi canlyniadau'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Byddem yn argymhell yr ymgynghorir â'r bartneriaeth ar bob rhaglen a ymgymerir fel rhan o'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwaith a sicrhau gwerth gorau am arian.
- Mae United Utilities yn rhannu data monitro ansawdd dŵr crai, y mae llawer ohono'n cael ei gasglu ar y cyd ag CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â phrotocol llygredd afon Dyfrdwy. Rydym yn ddiweddar wedi cwblhau llinell sylfaen ar gyfer cyfalaf naturiol rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys y dŵr a gyflenwir o ffynonellau sy'n tarddu yng Nghymru. Bydd y llinell sylfaen yn helpu i ffurfio sail y gellir olrhain newid ohoni, gan ein bod yn credu bod mesur buddion o ran cyfalaf naturiol yn allweddol os ydym am sicrhau bod ein cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu hoptimeiddio ledled gwasanaethau ecosystemau.
- Dylid gwneud mwy i warchod ac adfer gorgorsydd uwchdirol fel mesur lliniaru llifogydd; nid oedd mesurau o'r fath yn amlwg yn ardal Mynyddoedd Cambria. Mewn ardaloedd a gaiff llifogydd effaith arnynt, dylid dychwelyd y tir hwnnw i'w gyflwr blaenorol, a oedd yn dal dŵr dros ben yn ystod cyfnodau o law trwm ac yn caniatáu i'r dŵr gael ei ryddhau yn araf. Plannu mwy o goetiroedd colldail ac ystyried gweithredu mesurau amgylcheddol ar ffermio llaeth ar raddfa fawr.

C. Ein hamcanion ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basn Afon 2021–2027: A allwch chi ddarparu gwybodaeth bellach i helpu i lywio canlyniad yr amcanion a'r asesiad economaidd?

Nododd un ymatebwr fod yr adran "Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig" yn datgan fod "Cyfanswm y gost o ddatrys pwysau amaethyddol mewn 15 corff dŵr, yn ôl y ddeddfwriaeth gyfredol, yn dod i £10.5 miliwn" ac mai'r bwriad yw "cryfhau mecanweithiau rheoliadol, ariannol a gweithredol i hybu sector amaethyddiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr, o'r dalgylch i'r arfordir". Mae angen i fodelu economaidd gynnwys yr effaith ganlyniadol ar fusnesau fferm pe byddent yn wynebu rheoliadau llymach.

Cytunodd ymatebwr fod angen i fesurau fod yn gosteffeithiol ac na ellir mynd â rhai mesurau ymlaen gan eu bod yn anghymesur o gostus, ond roedd yn credu bod angen i ddadansoddiad economaidd ystyried y ffactorau sy'n cael effaith ar allu amaethyddiaeth, ar lefel fferm, i dalu'r costau a fyddai eu hangen i fodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n rhaid i CNC, wrth sefydlu'r amcanion, mesurau a champau gweithredu ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ystyried yn briodol yr effaith ar gost, a gallu busnesau fferm i amsugno'r costau hyn, gan gydnabod bod ffermio, yn wahanol i sectorau eraill, yn methu pasio costau ymlaen i gwsmeriaid.

Roedd ymatebwr arall yn teimlo nad yw rheoleiddio amaethyddiaeth yn cael ei weithredu ar lefel ddigonol. Yn achos rhan Lloegr afon Dyfrdwy, nid oedd yn ymwybodol o unrhyw ymweliadau rheoliadol ynghylch ffermio yn cael eu cynnal. Hoffai weld amcan clir yn y Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer ffocws mwy ar reoleiddio fel offeryn pwysig wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Roedd hefyd yn teimlo bod y drefn bresennol o ollyngiadau llif o gronfeydd dŵr afon Dyfrdwy yn achosi difrod i rywogaethau Ardal Cadwraeth Arbennig yn afon Dyfrdwy ac nad yw drafft presennol y Cynllun Rheoli Basn Afon yn nodi amcan neu raglen ar gyfer ymchwilio i'r gollyngiadau hyn a'u gwella.

Codwyd pryderon gan un ymatebwr fod adrodd a dosbarthu presennol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn anghywir a bod CNC yn adrodd gwelliant o 2015 hyd heddiw yn anghywir. Mae'n deall ac yn derbyn y bydd y dosbarthiad presennol yn cael ei ddiweddarau ar gyfer dosbarthiad 2021, ond roedd yn teimlo ei bod yn anodd gwneud sylw ar yr ymgynghoriad o'i herwydd. Roedd hefyd yn cwestiynu p'un a yw gwelliant o 4% mewn statws yn ganlyniad a ddymunir i Gymru a ph'un a yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol. Er ei fod yn cydnabod bod CNC wedi nodi'r mater hwn, drwy ystyried cymarebau cost a budd ar gyfer cyflawni, mae'n cwestiynu p'un a yw unrhyw welliant wedi cael ei gyflawni mewn gwirionedd ar sail data 2018.

Cynigiodd un ymatebwr ddarparu tystiolaeth a fyddai'n berthnasol i helpu i lywio'r amcanion, gan gynnwys mapio natur a charbon, glannau cynaliadwy, gwlyptiroedd arfordir y de, materion yn ymwneud â gwarchodfeydd, rhywogaethau estron goresgynnol, problemau llif dŵr yn sgil tynnu dŵr, llygredd gwasgaredig yn sgil rheoli tir cyfagos, effaith gorlifoedd carthion cyfun ar safleoedd gwlyptiroedd, dadansoddiad cost a budd o forfeydd heli, prosiectau atebion ar sail natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a phrosiect cynllun rheoli cynaliadwy Cynnal Gwastadeddau Gwent.

Roedd un ymatebwr yn teimlo ar hyn o bryd fod mwy o bwyslais ar gefnogi amaethyddiaeth, beth bynnag fo'i difrod i'r amgylchedd, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r dichonoldeb technegol a goblygiadau cost yn hytrach na chymryd camau gweithredu cadarnhaol, gan y gellid ei ystyried fel 'anghymesur o gostus'.

Gwnaeth un ymatebwr y pwynt fod yn rhaid i amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr fod yn ddichonadwy yn dechnegol, yn fforddiadwy, ac yn rhai na fyddent yn cael effaith ar allu'r sector ffermio i gynhyrchu bwyd ar gyfer ein poblogaeth gynyddol.

C. Dalgylchoedd cyfle: Yn eich barn chi, beth yw'r blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu yn y dalgylch cyfle yn Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy?

Roedd nifer o ymatebwyr yn falch bod Datganiadau Ardal wedi helpu i lywio'r detholiad o ddalgylchoedd cyfle ac roeddent yn croesawu'r dull integredig a gymerwyd. Mae'n gadarnhaol gweld bod afonydd nad ydynt mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hefyd wedi cael eu dewis a'u blaenoriaethu ar gyfer camau gweithredu.

Soniodd ymatebwr arall ei fod yn falch iawn hefyd fod CNC wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau prosiect a chyllid LIFE pedair afon, a fydd yn hybu buddsoddiad a gwelliant amgylcheddol yn y pedair afon Ardal Cadwraeth Arbennig yng Ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, nodwyd gan ymatebwr arall fod dulliau gwahanol yn cael eu cymhwyso ar hyn o bryd ar draws ardaloedd Datganiad Ardal a bod hyn weithiau yn creu aneffeithlonrwydd ar gyfer cyflawni a gweithio gyda rhanddeiliaid. Mewn rhai ardaloedd, mae hyn yn golygu bod gwaith cyflawni ar hyn o bryd yn cael ei arwain gan CNC yn ôl pob golwg, heb lawer o weithio mewn partneriaeth neu gyfranogiad gan rhanddeiliaid eraill yn yr ardal Datganiad Ardal honno. Roedd yn cytuno gyda'r blaenoriaethau lleol a nodwyd i'w datrys yng Ngorllewin Cymru, ond nodwyd nad oes manylion ar y cam hwn wedi'u darparu ar y mesurau a champau gweithredu lleol sydd eu hangen ym mhob ardal. Roedd yn pryderu bod hwyluso grantiau a chyllid drwy CNC yn rhwystro cyflawni ar lawr gwlad. Mae yna chwe blynedd nes 2027 ac eto nid oes canllawiau a pholisi sylweddol ar waith gan CNC i hwyluso'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn, yn enwedig i ganiatáu atebion ar sail natur i gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

Nododd un ymatebwr fod yr ymgynghoriad yn dawel ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ynghylch y dalgylchoedd cyfle. O fewn y dalgylchoedd hynny lle mae llygredd gwledig gwasgareddig wedi'i nodi fel problem, mae'n annog CNC i ystyried sut y bydd yn ymgysylltu a chydweithio'n effeithiol â'r gymuned ffermio ar ddatblygu camau gweithredu ac atebion. Roedd hefyd yn teimlo, er bod CNC yn parhau i hybu Datganiadau Ardal, yn seiliedig ar ei brofiad o ryngweithio â'r gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal hyd yn hyn, na fydd yn cefnogi eu defnydd fel sail dystiolaeth a/neu offeryn blaenoriaethu. Nid yw'n credu bod Datganiadau Ardal yn ganlyniad cydweithrediad effeithiol â'r sector ffermio, y dylid ystyried y rhai sy'n rhan ohono gan CNC fel partneriaid cyflawni allweddol. O ganlyniad, mae'n credu na all Datganiadau Ardal ffurfio unrhyw sail i adeiladu polisi a phenderfyniadau cyflawni arni mewn ardal benodol.

Teimlwyd hefyd gan ymatebwr arall bod angen i gamau gweithredu gydlynw â Chynlluniau Gweithredu Adfer Natur ac ystyried y broses o fodelu newidiadau i ddefnydd tir a ffermio ar ôl Brexit a gynhaliwyd gan Brosiect Peryglon Daearyddol Llywodraeth Cymru. Ychwanegwyd na ddylid edrych ar ymyriadau ar eu pen eu hun, a bod dull rheoli tir integredig sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ehangach yn hanfodol i gyflawni'r cynllun a'i amcanion.

Roedd un ymatebwr yn falch bod dalgylch cyfle afon Cleddau / Dyfrffordd Aberdaugleddau wedi cael ei ddewis gan fod llawer o nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, Bae Ceredigion a Bae Caerfyrddin mewn cyflwr anffafriol ac y nodir llygredd

fel ffactor cyffredin. Teimlwyd bod gostyngiad brys i fewnbynau maethynnau a ddaw o amaethyddiaeth (nitradau a ffosffadau yn nodedig), o darddleoedd penodol a tharddleoedd gwasgaredig, yn hanfodol. Roedd yna hefyd bryder ynghylch digonolrwydd y seilwaith carthffosiaeth, gan gynnwys systemau domestig (heb eu cysylltu), gollyngiadau heb drwydded, a gollyngiadau gorlif. Teimlwyd bod angen archwilio, cynnal a monitro systemau tanciau carthion domestig yn ddigonol.

Roedd ymatebwr arall yn falch bod afon Dyfrdwy wedi'i nodi fel dalgylch cyfle ac roedd yn edrych ymlaen at weld beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol. Mae'n teimlo mai'r blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu yw: gwella gollyngiadau o gronfeydd dŵr i fyny'r afon i greu trefn llif sydd wedi'i chynefino fwy yn yr afon, lleihau llygredd amaethyddol a charthion, adfer afonydd, ac ymgysylltiad cymunedol yn canolbwyntio ar ddraenio cynaliadwy. Awgrymodd, er mwyn cyflawni eu heffaith lawn, y dylid nodi prosiectau aml-flwyddyn gyda chyllid ymrwymedig ar gyfer pob blwyddyn ac na fydd gwaith sy'n seiliedig ar gyllidebau blynyddol yn gallu mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn strategol.

Gofynnodd un ymatebwr i afon Taf gael ei chynnwys fel dalgylch cyfle gan fod yr afon hon yn 'drysor' yn flaenorol ond teimlwyd ei bod wedi dirywio bellach.

Awgrymodd ymatebwyr nifer o gamau gweithredu yr oeddent yn teimlo bod eu hangen ar gyfer y dalgylchoedd cyfle, gan gynnwys y canlynol:

- Gostyngiad yn lefelau llygredd amaethyddol.
- Beilïaid afon i adrodd manau cyfyng a rhwystrau yn effeithiol.
- Rheolaeth ddeddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru i atal llygredd amaethyddol rhag mynd i mewn i afonydd a dyfroedd llonydd Cymru.
- Rheolaeth ddeddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru i atal achosion o ryddhau carthion heb eu trin yn afonydd Cymru.
- Rheoli a dileu rhywogaethau goresgynnol ar ac yn afonydd Cymru.
- Gweithredu mesurau i wella cynefinoedd afonydd Cymru.
- Rheoli a chymryd camau gorfodi ar holl waith rheoli perygl llifogydd anghyfreithlon, sydd yn difrodi cynefinoedd yr afon yn ddifrifol, gan gynnwys colli bywyd dyfrol, infertebratau, ac ardaloedd silio pysgod.
- Lleihau'r angen am dyniadau dŵr ychwanegol.
- Rheoli'r angen am gynlluniau ynni trydan dŵr ar afonydd bach yng Nghymru, sydd bellach yn cael effaith drwy niweidio cynefinoedd yr afon.
- Creu gwell cydberthynas gwaith rhwng y grwpiau genweirio yng Nghymru a Llywodraeth Cymru ac CNC er mwyn defnyddio eu cyfoeth o wybodaeth.
- Diogelu a datblygu "cynefinoedd afon" ar gyfer yr holl bysgod ac infertebratau. Glanhau a moderneiddio pob uned trin carthion a'u gollyngfeydd. Tynnu cydsyniadau gollwng "dŵr uchel".
- Lleihau ffosffadau o fewn afon Dyfrdwy.
- Annog preswylwyr i ddefnyddio cynhyrchion glanhau ecogyfeillgar, ac annog perchnogion siopau lleol i werthu cynhyrchion ecogyfeillgar am brisiau y gall pobl eu fforddio.
- Lobïo cwmnïau mawr i'w hatal rhag cynhyrchu cynhyrchion sy'n niweidio ein hamgylchedd yn weithredol.
- Parhau i weithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i'w haddysgu a'u hannog i ddefnyddio arferion/adnoddau sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.

- Annog cyfranogiad ar lefel "llawr gwlad" i weithio i lanhau ein dŵr. Gweithio gyda chwmnïau dŵr i leihau amser ymateb i bibellau dŵr sy'n gollwng; gall gweld faint o ddŵr sy'n cael ei wastraffu wneud i bobl deimlo fel nad yw gwneud eu rhan fach nhw yn gwneud unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd.
- Monitro, rheoleiddio a chosbau cadarn – mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y maes hwn fel maes sy'n cael ei reoleiddio lawer, ond nid yw'r safonau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau statws da.
- Uwchraddio seilwaith diffygiol – mae'n rhaid rhoi rhaglen reolaidd o asesu ac uwchraddio seilwaith dŵr ar waith, ynghyd â buddsoddiad sylweddol, i fynd i'r afael â manau lle mae tanfuddsoddiad blaenorol wedi bod yn yrrwr camddefnydd parhaus o orlifoedd carthion cyfun. Dylid blaenoriaethu gweithredu ar sail natur dros beirianeg galed, ac mae hyn yn debygol o ddarparu arbedion sylweddol ar y buddsoddiad gofynnol.
- Ymateb ar raddfa dalgylch i rywogaethau estron goresgynnol – dull graddfa dalgylch wedi'i gydlynu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol gan CNC, er mwyn gwarchod cynefinoedd gwlyptir ac arfordirol rhag rhywogaethau estron goresgynnol sy'n cyrraedd drwy systemau'r afonydd ac aberoedd.
- Adfer cynefinoedd ucheldir – dylai'r ffocws cychwynnol fod ar sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu hadfer a bod cyllid ar gael i'w rheoli'n gynaliadwy. Dylai adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo o fewn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru fod yn ffocws hefyd.

Ar gyfer dalgylch cyfle Bae Abertawe: dalgylch Castell-nedd – awgrymwyd y dylid mynd i'r afael â'r anghenion canlynol:

- Tynnu rhwystrau yn nalgylch Castell-nedd – sy'n effeithio ar rywogaethau Atodiad I a II
- Rhywogaethau estron goresgynnol (e.e. plâu clymog Japan a rhododendron)
- Pibellau gollwng dŵr gwastraff heb drwydded sy'n gollwng carthion yn afon Dulais (is-afon i afon Nedd)
- Llygredd sylweddol o bwll glo yn Nant Garwed

C. Pa fesurau y gallech chi helpu i'w cyflawni a pha bartneriaethau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?

Mynegodd nifer o ymatebwyr awydd i weithio mewn partneriaeth ag CNC. Roedd llawer o'r prosiectau a grybwyllwyd yr un peth â'r rhai yn y cwestiwn uchod ar fesurau, gyda'r canlynol yn ychwanegol:

- Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru wedi cychwyn gwaith i wella ansawdd dŵr yn nalgylchoedd afonydd Conwy/Clwyd/Ynys Môn a Gogledd Cymru.
- Creu menter Gwarcheidwaid Afon yn ardal Bae Abertawe i gynnwys y dalgylchoedd cyfle – cysylltu'r gwaith hwn â'r cynllun 'Cyfeillion' a 'Mabwysiadu is-afon' a ariennir gan Dŵr Cymru. Gellid hefyd darparu cyllid i Salmon & Trout Conservation Cymru i ehangu ei menter afonydd clyfar i ddalgylchoedd Bae Abertawe. Cefnogi mentrau megis partneriaeth Afonydd Iach rhwng Dŵr Cymru a Groundwork Cymru i'w helpu i ehangu eu heffaith gadarnhaol ar adfer afonydd. Gan ddilyn enghraifft Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (prosiect Lles yr Afon), ariannu rôl Swyddog Gofal Afon i reoli gwirfoddolwyr adfer afonydd yn nalgylch cyfle Bae Abertawe.

- Gallai cynghorau cymuned fod yn gyswllt defnyddiol i hyrwyddo pobl i gefnogi'r amgylchedd, h.y. annog pawb i ddefnyddio cynhyrchion cyfeillgar i'r amgylchedd ac efallai dosbarthu gwybodaeth am sut y gall gwahaniaethau bach wneud gwahaniaeth mawr i iechyd ein dyfrffyrdd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rheoli cynefinoedd gwlyptir cenedlaethol bwysig yn Sir Benfro megis Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Castellmartin a thirwedd arfordirol Penrhyn Llŷn, lle rydym yn treialu model taliad am ganlyniadau i gefnogi ffermio cyfeillgar i natur a defnyddio'r dull 'un cae yn ôl' i greu parthau clustogi. Ymhellach i mewn i'r tir, mae gwaith parhaus yn cynnwys gwarchod yr ystumllynnoedd naturiol ar y gorlifdir yn Ninfwr, sef Gwarchodfa Natur Genedlaethol sydd wedi'i dynodi ar gyfer ei buddiannau planhigion dyfrol, lle rydym yn creu system gorlifdir mwy naturiol ac yn gweithio gyda thenantiaid ar bori cadwraeth dwysedd isel.
- Prosiect Dalgylch Conwy Uchaf – mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dal yn bartner cyflawni arweiniol yn y gwaith o adfer cynefinoedd uwchdiroedd ac afonydd i helpu i liniaru llifogydd a gwella ansawdd dŵr ar gyfer bywyd gwyllt a phobl. Mewn mannau eraill, rydym yn rhan o brosiect uwch-ddalgylch Bannau Brycheiniog Dŵr Cymru, sy'n defnyddio dull graddfa tirwedd ac yn gweithio y tu hwnt i ffiniau i helpu i wella ansawdd dŵr a bioamrywiaeth, cefnogi cymunedau, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Adfer Cynefinoedd Afonydd Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru – 'Adfer prosesau naturiol a chysylltedd afonydd i wella cynefinoedd ar gyfer pob rhywogaeth'.
- Ffermio Ystyriol o Ddŵr – 'Gweithio gyda'r diwydiant amaethyddol i leihau'r golled o lygryddion i gyrsiau dŵr'.
- Ni ddylai fod yn afon Dyfrdwy – 'Creu dull a arweinir gan y gymuned i ddileu ffynonellau o lygredd'.
- Llifoedd Amgylcheddol – 'Sicrhau bod gollyngiadau o gronfeydd dŵr afon Dyfrdwy yn cael eu gwneud mewn ffordd mor addas i'r amgylchedd â phosibl'.
- Mae United Utilities yn ymchwilio i fesurau i wella ansawdd dŵr ac yn eu nodi a'u cyflawni. Rydym yn ymchwilio i'r broblem o afloywder drwy raglen fonitro y cytunwyd arni gydag CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd y canlyniad yn llywio cynnig ar gyfer Cyfnod Rheoli Asedau 8 (AMP8) y rhaglen WINEP, sy'n cwmpasu rhaglen wedi'i thargedu o ymyriadau dalgylchoedd i fynd i'r afael â'r lleoliadau risg uchaf – er enghraifft, plannu coed a chodi ffensys torlannol i leihau erydu glannau afon wrth gynnig nifer o fuddion ar gyfer gwasanaethau ecosystemau eraill, e.e. bioamrywiaeth a dal a storio carbon.
- Byddai gan RSPB Cymru ddiddordeb mewn cyfrannu at gamau gweithredu o fewn ein ardaloedd blaenoriaeth eraill a nodwyd: • Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn • Elenydd/Mallaen • Aber Afon Dyfi. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi fel blaenoriaethau gan RSPB Cymru o ganlyniad i bwysigrwydd y tirweddau hyn ar gyfer sicrhau bioamrywiaeth flaenoriaethol yng Nghymru.
- Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r RSPB wedi bod yn cymryd rhan mewn sawl prosiect adlinio mawr a reolir, ac yn eu rheoli, megis Medmerry yn Lloegr, sydd wedi ein caniatáu i ddatblygu arbenigedd ym maes cynllunio a gweithredu prosiectau adlinio a reolir ar raddfa fawr.
- Mae partneriaethau presennol RSPB Cymru â chwmnïau dŵr, megis Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru, yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflawni, gan ddatblygu partneriaethau blaenorol a phresennol sy'n cyflawni gwaith mewn perthynas â chynefin llysywennod mewn tair gwarchodfa gwlyptir yng Ngogledd Cymru ac o fewn Dyffryn Elan ac ar Ystad Llyn Efyrrwy.

- Mae 'O'r Mynydd i'r Môr' yn brosiect partneriaeth sy'n archwilio dulliau arloesol o weithio ar gyfer natur ar raddfa tirwedd. Mae'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn gweithio mewn ardal yng Nghanolbarth Cymru, o uwchdiroedd geirwon Mynyddoedd Cambria, i lawr drwy ddyffrynnoedd coediog i aber afon Dyfi ac allan i ardaloedd morol gwarchoddedig Bae Ceredigion.

C. Yr Amgylchedd Morol: Sut y gall Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ganolbwyntio'n well ar reoli pwysau yn yr amgylchedd morol gan ddefnyddio dull o'r tarddiad i'r môr i gyflawni gwelliannau i gyrff dŵr arfordirol ac aberol?

Croesawodd un ymatebwr y ffaith bod y dalgylchoedd cyfle wedi cymhwysu'r dull o'r tarddiad i'r môr o reoli dalgylch, gan nodi gyrff dŵr aberol ac arfordirol lle caiff dull o reoli dŵr mewn modd cynaliadwy ei ddatblygu. Roedd ymatebwr arall yn teimlo na allai feddwl ar hyn o bryd am unrhyw ffordd well y gallai'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon ganolbwyntio ar reoli pwysau yn yr amgylchedd morol na defnyddio dull o'r tarddiad i'r môr er mwyn cyflawni gwelliannau i gyrff dŵr arfordirol ac aberol.

Nodwyd nifer o bwysau ar gyfer yr amgylcheddau morol ac afonol gan ymatebwyr yr oeddent yn teimlo bod angen mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys y canlynol:

- Llygredd o amaethyddiaeth neu orlifoedd carthion cyfun.
- Carthu gwaddodion o'r afonydd i atal llygryddion rhag mynd i lawr afonydd ac allan i'r môr.
- Treillio am gregyn bylchog ym Mae Ceredigion.
- Tynnu pob hen ollyngfeydd i'r môr sy'n "segur" bellach.
- Bydd canolbwyntio blaenoriaethau ar wella'r amgylchedd mewn afonydd yn cyfrannu tuag at yr amgylchedd morol. Dylid nodi cyfleoedd ar gyfer rhanddeiliaid yn yr amgylchedd afonol i weithio gyda'r amgylchedd morol ac archwilio cyfleoedd a rennir ar gyfer cyflawni. Byddai'r dull hwn er budd rhannau llanwol afon Dyfrdwy yn enwedig.
- Rhywogaethau estron goresgynnol arfordirol yn dod o ffynonellau aberol – mae rhywogaethau estron goresgynnol yn broblem barhaus sy'n cael effaith ar gynefinoedd gwlyptir yng Nghymru, lle gallant gystadlu'n well na llystyfiant hanfodol, cynyddu erydiad, ac achosi gwaddodi o ganlyniad i'w cylch bywyd lluosflwydd. Mae angen inni weld dull graddfa dalgylch wedi'i gydlynu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol gan CNC, i warchod cynefinoedd gwlyptir ac arfordirol rhag rhywogaethau estron goresgynnol sy'n cyrraedd drwy systemau'r afonydd ac aberoedd.

Nododd un ymatebwr fod yna sawl llygrydd ychwanegol yn dod i'r amlwg fel bygythiadau i'n systemau dŵr croyw, gydag effeithiau canlyniadol posibl ar yr amgylchedd morol, ond nid yw graddau ac effeithiau eu presenoldeb yn ein dŵr croyw wedi cael eu hastudio ddigonol i raddau helaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Llygredd plastig mewn systemau dŵr croyw
- Gweddillion fferyllol

Nodwyd llygredd amaethyddol a nitradau dros ben gan un ymatebwr fel cyfrannu at ansawdd dŵr gwael yn afonydd Cymru a pharhau'r broblem o ddiraddio ecosystemau dyfrol a daearol. Gwnaeth sylw hefyd fod y llygredd hwn yn cael effaith negyddol ar ansawdd dŵr ymdrochi a ffynonellau o ddŵr yfed. Argymhellodd y dylid monitro ansawdd

dŵr mewn dyfroedd ymdrochi drwy gydol y flwyddyn fel y byddai problemau llygredd sy'n codi o'r tir yn cael eu nodi a'u unioni ynghynt.

Teimlodd un ymatebwr fod effaith uniongyrchol ar gyrff dŵr arfordirol ac aberol gan faterion ansawdd dŵr megis lefelau maethynnau a chemegion mewn nifer o ffyrdd, ac mae angen cydlyniant gwell rhwng grwpiau a mentrau i reoli'r amgylchedd morol a gweithgareddau rheoli basnau afonydd. Byddai'r Grŵp Llywio Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn grŵp allweddol i ymgysylltu ag ef ar y materion hyn a byddai cyllid pellach yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau materion ansawdd dŵr ac arfordirol.

Soniodd un ymatebwr fod angen cymorth parhaus ac ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â ffosffadau. Dylai canllawiau cynllunio ffosffadau CNC hefyd fod yn gymwys i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol.

Soniodd ymatebwr arall y dylai fod ardal cadwraeth forol ym Mae Caerfyrddin. Roedd yn teimlo y dylid atal pob math o rwydo, sef y defnydd o rwydi drifft a rhywdo ger yr aberoedd. Fodd bynnag, roedd ymatebwr arall yn teimlo bod llawer o anghytuno wedi bod ynghylch gwerth Parthau Cadwraeth Morol a'r goblygiadau posibl ar gyfer busnesau lleol sy'n dibynnu ar deithiau pysgota a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r môr. Arsylwyd y gallai twf ffermydd gwynt yn y môr ddarparu cyfle gwych i osod parthau o'r math hwnnw gyda'r gwrthwynebiadau lleiaf gan y cyhoedd.

Gofynnodd un ymatebwr am ganlyniadau gosod monitro hyd digwyddiadau ym mhob gorlif carthion cyfun yng Nghymru ac a ellid defnyddio hyn i flaenoriaethu'r gwelliannau gofynnol i'r systemau dŵr gwastraff. Nodwyd ganddo hefyd nad oedd sôn am 'Gynllun Morol Gogledd-orllewin Lloegr' yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy.

C. Ymadael â'r UE: Dywedwch wrthym eich barn ar yr heriau a chyfleoedd posibl ar gyfer cyflawni Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar ôl ymadael â'r UE

Gwnaeth llawer o ymatebwyr nodi bod yna bryder dros ddiffyg cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol unwaith rydym yn ymadael â'r UE. Cydnabuwyd bod angen i CNC weithio gydag eraill i roi pwysau gwleidyddol ar gyfer cyllid mwy a digonol neu edrych yn rhywle arall, neu byddai'r prosiectau hyn mewn perygl. Teimlwyd hefyd na ellid gwneud yn iawn am golli cyllid aml-flwyddyn, megis LIFE Afon Dyfrdwy, prosiect gorgors LIFE a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, yn ddigonol gan gyllidebau blynyddol ac, i gael effaith go iawn ar y canlyniadau a mesurau a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, fod angen creu grantiau aml-flwyddyn tymor hir a ariennir. Yn ogystal, mae angen hyblygrwydd o ran amserau derbyn grantiau o fewn y flwyddyn, gan fod cyfnodau ymgeisio byr ac amserlenni cyflawni tynn yn cyfyngu gallu partïon â diddordeb i sefydlu partneriaethau ac yn cyfyngu cyfleoedd.

Roedd un ymatebwr yn teimlo bod angen nodi cyllid sylweddol i wella a gwarchod ein safleoedd gwarchodedig. Gwnaeth hefyd fynegi pryder am statws a pherthnasedd ymddangosiadol safleoedd gwarchodedig yr UE, o safbwynt y gall eu pwysigrwydd leihau. Nodwyd ganddo fod angen newid sylweddol hefyd yn y gwaith o fonitro rhywogaethau os ydym am ddeall a mynd i'r afael â'r materion sy'n cael effaith ar natur ac arddangos pa mor llwyddiannus yw ymyriadau. Nid yw CNC yn monitro poblogaeth Cymru o lyswennod ar hyn o bryd, er ei bod yn rhywogaeth sydd mewn perygl difrifol ac wedi'i gwarchod. Mae Brexit yn cyflwyno Cymru gyda chyfle unigryw i weithredu adferiad gwyrdd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid ond talu cymorthdaliadau i ffermwyr lle maent yn cael eu cysylltu â gwelliannau amgylcheddol fel bod gan amaethyddiaeth le ar gyfer ein bywyd gwyllt. Gall ffermio sy'n gyfeillgar i natur helpu i wrthdroi dirywiadau mewn bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr.

Roedd un ymatebwr yn teimlo bod gadael yr UE yn dod ag elfen uchel o ansicrwydd ac aflonyddwch i'r farchnad i'r sectorau ffermio a rheoli tir. Bydd sut mae'r sectorau hyn yn ymateb i fasnach, rheoleiddio, a risgiau a chyfleoedd cymorth newydd yn cael effaith ar yr amgylchedd dŵr, er gwell neu er gwaeth. Mae ymadael â'r UE a'r pontio i ffwrdd o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i lywio dyfodol mwy cynaliadwy. Roedd yn teimlo y bydd Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymru) a'u cynllun rheoli tir yn gynaliadwy yn hanfodol i gyflawniad a llwyddiant y Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Mynegodd ymatebwr arall bryder y bydd y penderfyniad i ymadael â'r UE yn cael effeithiau sylweddol ar ffermwyr y DU. Gallai bargeinion masnach yn y dyfodol ddal i gael effaith ar hyfywedd busnes, a allai roi pwysau ar incwm, a allai gael effaith yn ei dro ar y gallu i fuddsoddi a sut mae'n ffermio. Yn ychwanegol, nododd un ymatebwr fod diwygio amaethyddol ar ôl Brexit yn risg sylweddol i ansawdd y dŵr gan mai amaethyddiaeth a choedwigaeth yw'r defnyddiau tir pennaf yng Nghymru.

Fel y nodwyd un ymatebwr, yr heriau a chyfleoedd posibl ar gyfer cyflawni Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar ôl ymadael â'r UE yw na ddylai'r safonau fod yn is, ond yn well na'r cynigion a gynigiwyd gan yr UE.

Gwnaeth un ymatebwr y pwynt na ddylai cwsmeriaid dŵr orfod ysgwyddo'r costau cynyddol am lygredd a achoswyd gan sectorau eraill. Mae angen i CNC a Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl sectorau yn cael eu grymuso i fynd i'r afael â'r llygredd y maent yn gyfrifol amdano.

Roedd cyfleoedd ychwanegol a nodwyd gan un ymatebwr yn cynnwys y canlynol:

- Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn gynhenid i gyflawni'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, sydd â'i thargedau nes 2027. Fodd bynnag, o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, ni fydd Cymru dan rwymedigaeth gyfreithiol i lynu at gynlluniau dilynol ar gyfer y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Roedd yn teimlo y dylai CNC achub ar y blaen a pharatoi ar gyfer sut y bydd nodau ansawdd dŵr yn cael eu deddfu a'u cyflawni.
- Mae angen i CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd gynhyrchu cynllun monitro a gorfodi clir i atal llygryddion rhag cael mynediad i'n dyfrffyrdd.
- Mae gan Gymru gyfle i ddangos arweinyddiaeth fyd-eang ar atebion ar sail natur a rheoli tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn y cyfnod cyn Arlywyddiaeth y DU o'r 26ain Gynhadledd Partïon Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP26), yn enwedig gan ystyried y bydd y gynhadledd yn rhoi sylw i rôl natur yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Drwy ymrwymo i bolisiâu amgylcheddol mentrus, wedi'u cefnogi gan gyllid priodol, gall Cymru sefydlu ei hun fel arweinydd wrth weithredu ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

C. Penderfyniad sgrinio ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y penderfyniad sgrinio o ran Asesiad Amgylcheddol Strategol?

Roedd un ymatebwr yn anghytuno â rhesymeg CNC na fydd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft yn cynhyrchu unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd neu

ychwanegol, ac felly nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol arnynt. Roedd yn ystyried mai safbwynt presennol CNC, yn ôl pob golwg, yw y bydd yr amcanion a'r mesurau a geir yn y cynlluniau yn methu arwain at fudd amgylcheddol sylweddol. Cynghorodd fod yn rhaid i'r Cynllun Rheoli Basn Afon ein gosod ar y llwybr mwyaf uchelgeisiol er mwyn cefnogi cyflawni Statws Ecolegol Da a Photensial Ecolegol Da ar gyfer cymaint o gyrff dŵr â phosibl.

C. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft?

Gwnaeth un ymatebwr gydnabod y broses a gymerwyd i sgrinio'r mesurau a nodwyd ar gyfer canlyniadau anfwriadol ar safleoedd Ewropeaidd a chytunodd fod angen ymchwiliad pellach i'r mesurau a sgriniwyd. Mewn egwyddor, roedd yn cefnogi penderfyniad CNC i gyfeirio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gynlluniau a phrosiectau haen is, lle bydd lefel fwy o fanylder ar gael i lywio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a mesurau lliniaru a chydbwyso. Ond roedd yn teimlo bod rhaid i'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd hyn sefydlu nad oes yna unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i weithredu'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar safleoedd Ewropeaidd.

Croesawyd y dull a nodwyd yn Adran 7.3 o'r asesiad a'r manylion a ddarparwyd ar liniaru cyffredinol gan un ymatebwr. Gwnaeth gydnabod y bydd y manylion o fewn Tabl 3 yn ddefnyddiol ond gyda'r gydnabyddiaeth gyffredin y bydd angen mesurau lliniaru eraill, yr oedd yn teimlo nad oedd yn bosibl i'w nodi ar lefel strategol. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd y ddogfen ddrafft yn nodi rhaglen fonitro ar gyfer y dull hwn, a allai fod yn ddefnyddiol gan fod rhaglenni a phrosiectau haen is yn cael eu datblygu i sicrhau bod y geiriau a ddefnyddir mewn perthynas â lliniaru cyffredinol yn parhau'n briodol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn eithaf hir ac ailadroddus, gan gynhyrchu 'rhestr ddymuniadau' o (fesurau). Nododd ymatebwr arall ei bod yn dda gweld rhestr hir o gynigion ond nad oedd gan CNC y cyllid i ddarparu gorfodi digonol ac roedd yn pryderu nad oedd modd cyrraedd y nod gyda chyllid mor gyfyngedig.

2.2 Sylwadau cyffredinol

Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr ateb y cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad, ond nodwyd sylwadau cyffredinol ganddynt ar y pynciau/materion canlynol:

Llygredd Gwasgaredig / Digwyddiadau Llygredd

Roedd llawer yn bryderus am ledaenu slyri a dŵr ffo o ffermydd ieir. Soniodd rhai ymatebwyr am yr effaith ar afonydd Taf a Clwyd o ganlyniad. Teimlwyd bod angen gwneud mwy ar orfodi a rheoleiddio i sicrhau yr eir i'r afael â'r materion hyn. Roedd un ymatebwr yn teimlo eu bod fel sefydliad yn cael eu hatal ar hyn o bryd wrth geisio gwneud cynnydd ar systemau rheoli maethynnau gyda ffermwyr yng Nghymru, o ganlyniad i ddiffyg canllawiau a chymorth gan CNC, ac roedd yn credu nad yw CNC ar hyn o bryd yn llwyddo i reoli llygredd o ardaloedd gwledig.

Roedd gan un ymatebwr bryderon ynghylch safbwynt presennol CNC o ran ceisiadau cynllunio. Mae datblygiad amaethyddol gwledig yn parhau o ganlyniad i fethiant CNC i ystyried Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd fel rhan o geisiadau cynllunio, i beidio rhoi sylw priodol i reoli maethynnau a gofynion cydymffurfiaeth, ac i beidio ystyried rheoli slyri

yn briodol. Mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth cynlluniau rheoli maethynnau drwy gynllunio, ond nid oes ganddynt sgiliau neu wybodaeth yn y maes hwn.

Soniodd dau ymatebwr am y broblem o ffosffadau. Soniodd un fod CNC wedi cyhoeddi canllawiau dros dro ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ar effaith ffosffadau ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, ond bod angen gwaith pellach i ddeall yr hyn y mae'r canllawiau yn ei olygu o safbwynt egwyddor, polisi a gweithrediad manwl.

Cododd sawl ymatebwr bryderon dros faterion llygredd carthion a gollyngiadau gorlifoedd carthion cyfun yn llygru systemau afonydd lleol a teimlwyd bod angen mwy o gamau gweithredu i leihau hyn, gan gynnwys monitro. Teimlwyd hefyd y gellid gwneud mwy i hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy, lleihau camgysylltiadau, a mynd i'r afael â llygredd o briffyrdd.

Gwnaeth un ymatebwr sylw, er ei fod yn deall mai diben gorlifoedd carthion cyfun yw gollwng carthion dynol a dŵr gwastraff heb eu trin pan gânt eu gorlwytho o ganlyniad i amodau eithafol, er mwyn osgoi carthion yn llifo drwy'n strydoedd a'n cartrefi, ei fod yn teimlo bod gorlifoedd carthion cyfun yn cael eu defnyddio i gael gwared ar garthion yn rheolaidd y tu allan i amodau eithafol, e.e. lefelau eithafol o law.

Roedd rhywun arall yn teimlo bod yna dystiolaeth gref bod gorlifoedd carthion cyfun yn gweithredu y tu hwnt i amodau trwyddedau ledled Cymru. Ni ellir cael buddsoddiad pellach gan Dŵr Cymru oni bai fod CNC yn cymryd safbwynt rheoliadol cryfach. Mae ganddo bryderon hefyd fod y canlyniad hwn wedi'i danamcangyfrif yn sylweddol ar lefel corff dŵr a bod gweithrediad gorlifoedd carthion cyfun yn llawer uwch na'r hyn a ddeallir ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, dylid trwyddedu a monitro pob cydsyniad didrwydded a thybiedig gan CNC yn erbyn amodau trwydded.

Teimlwyd gan ymatebwr arall y dylai fod pwyslais ar well dealltwriaeth ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol i'w gynnwys fel tystiolaeth yn y broses o gynllunio gwaith i reoli basnau afonydd, yn ogystal â'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal. Mae'n pryderu bod diffyg tystiolaeth a dealltwriaeth o lygredd gwasgaredig gwledig ac yn credu bod angen mwy o ymchwil ar ddsrannu tarddiadau ac i ddeall dylanwadau eraill megis gollyngiadau carthion a thanciau carthion domestig. Mae ganddo bryderon y gellid gorbwysleisio ehangder llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth gan ei fod yn anodd "cadarnhau" y tarddiad heb ddata monitro manwl. Mae'n gofyn p'un a oes monitro digonol i nodi'r gweithgareddau sy'n gyfrifol am lygredd gwasgaredig mewn dalgylchoedd gwahanol, a ph'un a fydd yn bosibl monitro'r gwelliannau o ganlyniad i fesurau llygredd gwasgaredig gwledig a nodwyd yng nghynlluniau y trydydd cylch. Mae'n pryderu bod mesurau wedi cael eu dewis i leihau llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth heb fanylion llawn o ran achos y llygredd.

Cododd un ymatebwr bryderon dros nifer y digwyddiadau llygredd a chafodd ei nodi gan ymatebwr arall fod yna ymholiad hirsefydlog dros weddillion gwastraff gwenwynig yn yr hen safle Monsanto yng Nghefn Mawr sydd â'r potensial i drwytholchi i mewn i gysiau dŵr cyfagos ac nad oes sôn am hyn nag unrhyw achosion eraill o'r fath yn y Cynllun Rheoli Basn Afon.

Carthu a Chynnal a Chadw

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod carthu yn angenrheidiol mewn afonydd i wella ansawdd dŵr, a soniodd un ymatebwr fod profion yn UDA wedi dangos bod draenio gwell yn gwella ansawdd dŵr, gan fod tir gorlifedig yn golchi llygryddion (nitrogen, ffosffadau ac ati) yn syth i mewn i gyrsiau dŵr. Mae draenio tir drwy ddraeniau teils (plastig) yn hidlo'r dŵr i ansawdd yfadwy. Mae'n gwneud hyn cymaint fel bod Asiantaeth yr Amgylchedd UDA yn rhoi grantiau ar gyfer y mesurau hyn.

Dosbarthiad

Nododd un ymatebwr y bydd diweddariadau pellach i wybodaeth am ddosbarthiadau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Er ei fod yn cytuno ag egwyddor rheol 'un allan, pob un allan', mae'n credu y gall y statws cyffredinol guddio cynnydd a byddai felly yn hoffi gweld dadansoddiad o bob elfen a'r rheini nad ydynt yn cyflawni 'da neu well' i helpu i yrru newid. Yn debyg, ar gyfer dosbarthiad terfynol dŵr daear, byddai'n annog bod dull mwy cynnil yn cael ei gymryd yn hytrach na statws 'da neu wael' cyffredinol i helpu i dargedu camau gweithredu lle mae eu hangen fwyaf.

Rheoleiddio

Roedd un ymatebwr yn croesawu cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, sy'n alinio Cymru â rhannau eraill o'r DU ac yn cynnwys addasu canllawiau arfer da blaenorol yn set o fesurau gorfodol eglur a chyson. Fodd bynnag, roedd yn teimlo na fydd y rheoliadau ar eu pen eu hunain yn atal llygredd a hoffai eglurder ar sut mae CNC yn bwriadu eu monitro a'u gorfodi. Gwnaeth sylw fod dros y trydydd cylch y bydd ffocws ac adnoddau ffermwyr yn debygol o gael eu sianelu yn gyfan gwbl ar y broses o sicrhau cydymffurfiaeth â'r darn hwn o reoleiddio heb ystyried ei gyfraniad at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sydd heb ei asesu.

Cyllid

Soniodd nifer o ymatebwyr fod diffyg cyllid yn broblem. Teimlwyd nad oedd digon o staff gorfodi i fonitro a gorfodi achosion o dorri amodau a bod cyllid, neu ddiffyg cyllid, yn cael effaith fawr ar allu CNC i gyflawni ei ddyletswyddau.

Cynlluniau Ynni Trydan Dŵr

Gwnaeth un ymatebwr sylw ei fod yn gwrthwynebu'r defnydd o gynlluniau ynni trydan dŵr ar afonydd lleol, megis afon Elwy a'i his-afonydd. Roedd yn gwrthwynebu caniatâd cynllunio ar gyfer y cynlluniau hyn. Roedd yn gwrthwynebu'r syniad o osod basnau llanwol yn yr ardal leol, gan y byddai hyn yn cael effaith ar bysgod mudol, ac roedd hefyd yn pryderu am gynlluniau ynni llanwol.

Roedd ymatebwr arall yn cytuno bod angen i CNC gyflawni rhaglen o archwiliadau cynlluniau ynni trydan dŵr i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â thrywddedau rhwystrau a chroniadau dŵr, ac i gymryd camau gorfodi priodol pan fyddant yn methu gwneud hyn.

Hepgoriadau

Nododd un ymatebwr y byddai'n werth cyfeirio at ddogfen Cynllun Rheoli Basn Afon 2021: Her Plastigion Asiantaeth yr Amgylchedd, y mae dolen ati drwy 'Atodiad Trosolwg ar gyfer Lloegr' yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy, a hefyd y polisi ML-1 Sbwriel Môr yng Nghynllun Morol Gogledd-orllewin Lloegr.

Soniodd un ymatebwr nad oedd yn credu bod data sydd eisoes wedi'i gasglu gan Afonydd Cymru, a ariennir gan CNC, ar gyfer y Rhaglen Adfer Cynefinoedd Pysgodfeydd wedi'i ystyried na'i ddefnyddio fel rhan o raglen y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Cynllunio Basnau Afonydd

Roedd un ymatebwr yn teimlo, o ystyried ein 'dull seiliedig ar le', bod angen newid y modd y darlunnir Ardaloedd Basn Afon yn briodol, gan fod natur y dalgylchoedd ledled Cymru yn sylweddol wahanol. Soniodd rhywun arall fod y ffaith nad yw ffiniau'r Ardaloedd Basn Afon a Datganiad Ardal yn alinio yn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod, fel y mae'r ffaith fod yr Ardaloedd Basn Afon hefyd yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Cododd rhywun arall bryder dros y ffaith mai dim ond 44% o afonydd yng Nghymru sy'n cyflawni Statws Ecolegol Da o dan ddsbarthiad dros dro y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2018. Nodwyd bod gan 45 corff dŵr amcan o statws llai na da ac, er bod gan 491 corff dŵr (86%) amcan o statws da erbyn 2027, bod disgwyliad mai dim ond 240 (42%) sy'n debygol o gyflawni hyn. Mae'n cydnabod bod CNC wedi nodi rhestr o anghenion tystiolaeth dŵr yn y cynllun ac yn annog y bydd mynd i'r afael â'r bylchau presennol hyn yn y data yn hanfodol ar gyfer cyflawni mesurau effeithiol ac wedi'u targedu ar gyfer cyrff dŵr, ac ar gyfer llwyddiant y Cynllun Rheoli Basn Afon yn y pen draw.

Roedd un ymatebwr yn meddwl bod angen gwneud mwy gan ein bod bellach wedi ymadael â'r UE. Nid oes gennym hanes da ar welliannau i ansawdd dŵr, gydag ychydig iawn o afonydd yn cyflawni statws da.

Roedd ymatebwr arall yn teimlo, yn gyffredinol, fod y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer cynllunio gwaith i reoli basnau afonydd yn gynyddol gymhleth ac amwys, gydag CNC bellach yn arwain ar ddatblygu cynlluniau lluosog, drwy brosesau lluosog ar ystod o raddfeydd gofodol. Roedd hefyd yn pryderu bod cynnydd tuag at statws da yn cael ei guddio gan y rheol 'un allan, pob un allan'. Mae'r rheol hon yn cyflwyno safbwynt mwy pesimistaidd o'r statws presennol ac mae'n credu y dylai CNC wneud mwy i gyfleu manylder statws ansawdd dŵr yng Nghymru y tu hwnt i'r penawdau.

Un o'r prif anawsterau sydd ganddo o safbwynt proses y Cynllun Rheoli Basn Afon yw natur lefel uchel y dogfennau. Er mwyn i broses y Cynllun Rheoli Basn Afon ymgysylltu ag unigolion, fel sy'n ofynnol gyda'r sector amaethyddol, mae angen dulliau newydd o ymgysylltu. Mae'n rhaid i hyn fod yn berthnasol yn lleol, gyda chyingor wedi'i deilwra yn hytrach na gwybodaeth gyffredinol am "leihau llygredd gwasgaredig yn y tarddiad" neu "leihau llwybrau llygredd gwasgaredig". Nid yw'r plattform hwn yn bodoli ar hyn o bryd ac mae diffyg ffocws i'r cynlluniau drafft ar ymgysylltu ystyrion â ffermio.

Roedd yn teimlo ymhellach, gyda diwedd y Paneli Cysylltu ar gyfer Rheoli Basnau Afonydd, nad yw'n glir sut y bydd amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu datblygu i'r cam nesaf. Er ei fod yn falch o gael ei gynrychioli mewn nifer allweddol o fforymau CNC, mae'n nodi bod y grwpiau hyn yn weithredol ar lefel strategol nad yw o

reidrwydd yn addas neu wedi'i arfogi i gyflawni camau gweithredu ar raddfa'r dalgylch neu gorff dŵr.

Llifogydd

Roedd un ymatebwr yn teimlo bod angen gwell rheolaeth o lifogydd a bod angen rheoli tir yn fwy cydymdeimladol. Mae angen rheoli llifogydd, cynhyrchu bwyd, ansawdd dŵr a bywyd gwyllt, gan gynnwys pysgod, yn ofalus ac mae pawb yn gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys ffermwyr, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, datblygwyr, awdurdodau lleol, genweirwyr, grwpiau amgylcheddol, cyrff anllywodraethol, a'r gymuned gyfan.

Arall

Soniodd un ymatebwr ei bod yn gydnabyddedig yn eang fod gan reoli tir, a llygredd dŵr gwasgareddig o amaethyddiaeth yn benodol, effaith fawr ar allu dalgylchoedd i gyflawni statws targed y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n cydnabod pwysigrwydd ffermio i'r economi wledig a phwysigrwydd sicrhau y gall ffermwyr fod yn llwyddiannus, ond hoffai weld gwerth llawn amaethyddiaeth yn cael ei ystyried o ran yr effaith ar ansawdd dŵr a gwasanaethau ecosystemau eraill, sy'n arwain at gyfalaf naturiol yn cael ei greu neu erydu gan weithgareddau, yn ogystal â gwerth ariannol y gweithgaredd. Roedd hefyd yn teimlo bod angen inni weld ffocws pendant ar yrru'r economi gylchol er mwyn sicrhau bod gwelliannau amgylcheddol yn cael eu gyrru mewn ffordd gynaliadwy.

Roedd un ymatebwr yn teimlo bod angen gweithredu mesurau cytunedig o dan yr adolygiad o gydsyniadau i ddiogelu llifoedd afonydd yng Nghymru ac roedd yn siomedig nad oedd canlyniadau'r broses hon ar waith eto.

Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sylw y byddai'n croesawu'r cyfle i ymuno â Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i rannu pethau a ddysgwyr a chwarae ei rhan yn cyflawni dros Gymru.

Soniodd un ymatebwr eu bod, fel genweirwyr, yn ymrwymedig i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd y gallant i wella ansawdd dŵr ac amgylchedd cynefinoedd. Roeddent yn teimlo bod angen i CNC a Llywodraeth Cymru sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hystyried.

Gofynnodd ymatebwr arall am y canllawiau ar danciau carthion ac a fu unrhyw werthusiad o ran pa mor effeithiol mae hyn wedi bod.

Nododd un ymatebwr na ddylem fod yn cyfeirio at Gyfarwyddebau'r UE yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ac y dylid disodli cyfeiriadau at safleoedd Natura 2000 â'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

Cafwyd sylwadau pellach ar rai o'r prosiectau a geiriad y soniwyd amdanynt yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft.

3. Y Camau Nesaf

Rydym yn falch o weld, o'r ymatebion, fod nifer o sefydliadau ac unigolion wedi rhoi eu cefnogaeth i'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy, a chroesewir eu parodrwydd i helpu i gyflawni'r gwelliannau i'r amgylchedd dŵr.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i lywio'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd terfynol, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan fis Gorffennaf 2022.

Mae yna lawer i'w wneud, ac i gyflawni'r gwelliannau rydym oll eisiau eu gweld, rydym yn cydnabod bod rhaid dod o hyd i atebion cynaliadwy a chydgyssylltiedig newydd. Yng Nghymru, bydd y cynigion yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol, gan edrych ar achosion sylfaenol problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion priodol. Ein nod ar gyfer yr Ardaloedd Basn Afon yw nid cyflawni gofynion Rheoliadau y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn syml, ond i integreiddio cynllunio a chyflawni amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig lle bo'n bosibl.

Ni allwn gyflawni'r amcanion angenrheidiol drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau ar eu pen eu hun – mae angen i ni gydweithio â'n partneriaid drwy rannu arbenigedd a datblygu canlyniadau cyffredin y gallwn oll weithio tuag atynt. Mae'n rhaid i reolwyr tir, ffermydd, busnesau, diwydiant, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cynllunwyr, cyrff llywodraethol, cyrff anllywodraethol, ac unigolion ymrwymo i newid ein perthynas â dŵr a'r amgylchedd y mae'n ei gefnogi.

O'r ymatebion a dderbyniwyd, mae'n eglur bod yna lawer o brosiectau/mentrau parhaus a bod cyfle i ddefnyddio'r rhain i ddatblygu'r dulliau y cyflawnir y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drwyddynt. Gellir cefnogi hyn drwy waith parhaus Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, ac, ar lefel leol, bydd dulliau dalgylch, prosiectau partneriaeth a gweithio traws-sector o hyd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid yn y blynyddoedd nesaf i ddatblygu syniadau, cynlluniau gweithredu ac atebion ymhellach.

Am fwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Neu anfon e-bost at wfdwales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn 0300 065 3000

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ein hatal rhag enwi unigolion nad ydynt wedi rhoi caniatâd i ni gyhoeddi eu manylion yn gyhoeddus. Mae copi o'r ymatebion ar gael ar gais.

Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr

ENW	SECTOR	Ardal Basn Afon
Dau unigolyn	Amrywiol	Afon Dyfrdwy
Cymdeithas Amddiffyn rhag Llifogydd	Rheoli Tir	Afon Dyfrdwy
Yr Ymgyrch Diogelu Pysgodfeydd Cymru x 2	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni	Genweirio	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Genweirio Hendy-gwyn ar Daf a Grŵp Cerdded Hendy-gwyn ar Daf	Genweirio	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Genweirio'r Rhyl a Llanelwy	Genweirio	Gorllewin Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Llywodraeth Leol	Afon Dyfrdwy
Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Cyngor Cymuned Llanboidy	Grŵp Cymunedol	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
NFU Cymru	Rheoli Amaethyddiaeth a Thir Gwledig	Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy
RSPB Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Llywodraeth Leol	Gorllewin Cymru
Afonydd Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Diwydiant Dŵr	Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy
Sefydliad Rheolaeth Forol	Arall	Afon Dyfrdwy
Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru	Cadwraeth	Afon Dyfrdwy
NFU Gogledd-orllewin Lloegr	Rheoli Amaethyddiaeth a Thir Gwledig	Afon Dyfrdwy
Partneriaeth Canol Dalgylch Afon Dyfrdwy	Cadwraeth	Afon Dyfrdwy
United Utilities	Diwydiant Dŵr	Afon Dyfrdwy
Hafren Dyfrdwy	Diwydiant Dŵr	Afon Dyfrdwy

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru

